# Proffil

Mae Cymdeithas Tai Cartrefi Dinas ("Cartrefi Dinas Casnewydd" neu "y Gymdeithas”) yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a grëwyd yn dilyn trosglwyddo eiddo'n wirfoddol ar raddfa fawr o Gyngor Dinas Casnewydd ym mis Mawrth 2009. Mae'r Gymdeithas wedi'i chofrestru o dan y Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, ac mae ganddi reolau elusennol.

Mae Cartrefi Dinas Casnewydd yn berchen ar 8,867 eiddo ac yn eu rheoli; cartrefi anghenion cyffredinol yw'r rhain yn bennaf gan gynnwys 93 eiddo masnachol. Mae'n darparu gwasanaethau rheoli i 647 o lesddalwyr a 141 o gartrefi cydberchenogaeth yn Ninas Casnewydd.

Ar hyn o bryd, mae gan y Gymdeithas gynlluniau pendant i ddatblygu cartrefi newydd, wrth barhau i adfywio rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Casnewydd.  Cyflawnodd y Gymdeithas gydymffurfiad â Safon Ansawdd Tai Cymru ar ddiwedd 2015.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2017/18** | **2018/19** | | **2017/18** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 7.7% | 11.3% | dd/g | 20.1% |
| Gwarged / (diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 2.3% | 7.1% | dd/g | 8.1% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 2.6% | 3.2% | dd/g | 2.1% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 100% | 100% | dd/g | 75% |
| Benthyciadau'r Gymdeithas £miliwn | 63.0 | 63.0 | 112.5 | dd/g |

Mae gan y Gymdeithas ddigon o gyfleusterau benthyca gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath.

